
**Addysg** i Oedolion yn y Gymuned
Adult Community **Learning**









# Cyrsiau ar gyfer oedolion

2023-2024

# Croeso i Lyfryn Dysgu Oedolion yn y Gymuned 2023 - 2024 Hamdden Aneurin

**Mae gwybodaeth yn y llyfryn hwn ar Gyrsiau Hamdden Aneurin ar gyfer 2023-24. Mae gennym gyrsiau addas i bawb - p'un ai ydych eisiau dysgu sgiliau newydd neu wella sgiliau presennol. Mae cyrsiau i helpu gwella eich rhagolygon gwaith, yn ogystal â chyrsiau ar gyfer hamdden a phleser a fydd yn hwb i'ch llesiant.**

**Mae Hamdden Aneurin yn parhau i weithio fel rhan o Bartneriaeth Dysgu Cymunedol Gwent i ddarparu cyrsiau ansawdd uchel ar gyfer pob dysgwr.**



**"Mae Hamdden Aneurin yn ymroddedig i wella bywyd y gymuned ac mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn rhan gyfannol o'r ymrwymiad hwn - darparu cyfleoedd dysgu ansawdd uchel ar draws Blaenau Gwent."**

"Gwyddom am fanteision cymryd rhan mewn dysgu yn y gymuned a deallwn fod pobl yn ymwneud ag addysg oedolion am amrywiaeth eang o resymau. Efallai eu bod eisiau gwella rhagolygon cyflogaeth, ymestyn eu rhwydweithiau cymdeithasol, cynorthwyo eu llesiant neu ailddarganfod angerdd am ddysgu. Darparwn amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ar bob lefel, i helpu cefnogi ein dysgwyr i gyflawni eu huchelgais.

"Cysylltwch ag unrhyw un o'n Canolfannau Dysgu Gweithredol os gwelwch yn dda os hoffech gael manylion pellach am y cyfleoedd dysgu yn y llyfryn hwn. Byddwn yn cynnig cyrsiau ychwanegol drwy gydol y flwyddyn a bydd gwybodaeth ar gael ar wefan Hamdden Aneurin a'n tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol."

**Karen Bennett – Rheolwr Dysgu Oedolion yn y Gymuned**



# Contents


| | |
|---|---|
| Cyrsiau Cyfrifiadur | 5 |
| Cymwysterau TG | 5 |
| Cyrsiau Sgiliau Hanfodol ar gyfer Technoleg Gwybodaeth/Gwaith a Bywyd | 6 |
| Cyrsiau Llythrennedd Digidol | 6 |
| ICDL Cymdeithas Cyfrifiaduron Prydain | 7 |
| Gwella eich Saesneg a'ch Mathemateg | 9 |
| TGAU Saesneg a Mathemateg | 10 |
| Cyrsiau Sgiliau Byw Annibynnol | 11 |
| **Newydd** - Cyrsiau Crefft | 18 |
| Gweithdai Crochenwaith | 18 |
| Iaith Arwyddion Prydeinig | 18 |
| ESOL | 19 |
| Dyfarniadau AIM Lefel 2 mewn Cwnsela | 20 |
| Ffotografiaeth ar gyfer Pawb | 21 |
| Grwpiau a Chlybiau | 21 |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwaith Cymorth mewn Ysgolion | 22 |
| Cyrsiau Addurno Teisennau | 23 |
| Prosiect Meithrin Darparu Ffynnu | 24 |
| **Cwrsiau Newydd** Crochenwaith i Bawb | 24 |
| **Cwrs Newydd** Coginio Iach ar Gyllideb | 24 |
| **Cwrs Newydd** Celf yn y Prynhawn | 24 |
| Dysgu Cymraeg | 25 |
| Llogi Ystafelloedd | 26 |
| Gwybodaeth Gyffredinol | 26 |
| Llyfrgelloedd Blaenau Gwent | 28 |
| Bridges + | 29 |
| Multiply | 30 |








# Dysgu Oedolion yn y Gymuned Hamdden Aneurin

## Darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ledled Blaenau Gwent

**Karen Bennett - Rheolwr Dysgu Oedolion yn y Gymuned**
ff: 01495 355301 / 07815482242
e: karen.bennett@aneurinleisure.org.uk

**Claire Gough - Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin**
ff: 01495 355319
e: claire.gough@aneurinleisure.org.uk









**Canolfan Dysgu Gweithredol Abertyleri**
Stryd Alma, Abertyleri NP13 1YL
ff: 01495 355895
e: julie.griffiths@aneurinleisure.org.uk

**Canolfan Dysgu Gweithredol Glynebwy**
Stryd James, Glynebwy NP23 6JG
ff: 01495 355300
e: carolyn.roberts@aneurinleisure.org.uk

**Canolfan Dysgu Gweithredol Brynmawr**
Sgwâr y Farchnad, Brynmawr NP23 4AJ
ff: 01495 355595
e: julie.griffiths@aneurinleisure.org.uk

**Addysg Gymunedol Tredegar yn Llyfrgell Tredegar**
Y Cylch, Tredegar NP22 3PS
ff: 01495 355300
e: lowan.reynolds@aneurinleisure.org.uk

# Cyrsiau Cyfrifiadur

## Cymwysterau Technoleg Gwybodaeth

**Cynigir y cyrsiau hyn ar fynediad hyd at lefel 1. Nid oes ffioedd cwrs, ond bydd angen i ddysgwyr dalu ffi aelodaeth blynyddol o £5.**

**Sgiliau Digidol** – cwrs lefel mynediad fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau digidol. Byddwch yn cydweithio yn defnyddio amrywiaeth o apiau am ddim yn effeithlon a dod yn fwy hyderus gyda bod yn ddiogel ar-lein. Cynlluniwyd y cwrs i wella eich sgiliau digidol, i'ch helpu i fynd i waith, a/neu wella eich rhagolygon yn eich swydd bresennol.

### Mae'r pynciau y rhoddir sylw iddynt yn cynnwys:

- Chwilio'r rhyngrwyd
- Diogelwch rhyngrwyd
- Defnyddio apiau am ddim
- Defnyddio WhatsApp, Messenger ac apiau cyfryngau cymdeithasol eraill
- Defnyddio YouTube
- Anfon a derbyn e-bost
- Strwythuro ffolderi
- Defnyddio amrywiaeth o dŵls creadigol, golygu digidol, Microsoft 2016 a llawer llawer mwy!

**Sgiliau Hanfodol Technoleg Gwybodaeth** – cwrs lefel mynediad yn rhoi sylw i sylfeini defnyddio cyfrifiadur. Cynlluniwyd y cwrs i annog sgiliau cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel y gall dysgwyr ddefnyddio'r sgiliau yn hyderus yn alwedigaethol ac yn addysgol, yn ogystal ag yn y cartref.



# Cyrsiau Sgiliau Hanfodol ar gyfer Technoleg Gwybodaeth/Gwaith a Bywyd - 38 wythnos

| Safle | Diwrnod | Amser |
|---|---|---|
| Llyfrgell Tredegar | Dydd Llun | 12.30-3.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Llun | 12.30-3.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Mawrth | 6.00-8.30pm |
| LAC Brynmawr | Dydd Mercher | 2.15-4.15pm |
| Llyfrgell Tredegar | Dydd Gwener | 9.30-12.00pm |
| Llyfrgell Cwm | Dydd Iau | 9.30-12.00pm |
| Llyfrgell Cwm | Dydd Iau | 12.30-3.00pm |

# Cyrsiau Sgiliau Digidol - 38 wythnos

| Safle | Diwrnod | Amser |
|---|---|---|
| Llyfrgell Tredegar | Dydd Llun | 9.30-12.00pm |
| LAC Abertyleri | Dydd Mawrth | 9.30-12.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Llun | 9.30-12.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Mawrth | 12.30-3.00pm |
| Llyfrgell Tredegar | Dydd Mercher | 12.30-3.00pm |
| LAC Brynmawr | Dydd Mercher | 12.00-2.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Iau | 9.30-12.00pm |
| LAC Brynmawr | Dydd Gwener | 9.30-12.00pm |





# ICDL - Cymdeithas Gyfrifiadurol Prydain (BCS)

Cynlluniwyd ICDL BCS Lefelau 1, 2 a 3 (yr arferid ei alw yn ECDL) yn benodol ar gyfer rhai sy'n dymuno ennill cymhwyster meincnod mewn cyfrifiadureg i'w galluogi i ddatblygu eu sgiliau TGCh a gwella eu rhagolygon gyrfa.
**Oherwydd y sefyllfa gyfredol gyda Covid-19, efallai y cyflwynir y cwrs hwn drwy ddysgu cyfunol.**

## Tystysgrif Defnyddio Technoleg Gwybodaeth BCS • Lefel 1

Mae angen 12 credyd ac uned orfodol ar gyfer y cymhwyster yma:
Gwella Cynhyrchiant yn defnyddio TG (3 credyd)
Dewis unedau:

- **Meddalwedd Prosesu Geiriau (3 credyd)**
- **Meddalwedd Taenlenni (3 credyd)**
- **Meddalwedd Cronfa Ddata (3 credyd)**
- **Meddalwedd Cyflwyniadau (3 credyd)**

## Dyfarniad Defnyddio Technoleg Gwybodaeth BCS • Lefel 1

Mae angen 9 credyd o'r unedau sydd ar gael ar gyfer y cymhwyster yma:

- **Meddalwedd Prosesu Geiriau (3 credyd)**
- **Meddalwedd Taenlenni (3 credyd)**
- **Meddalwedd Cronfeydd Data (3 credyd)**
- **Meddalwedd Cyflwyniadau (3 credyd)**

## Tystysgrif Defnyddio Technoleg Gwybodaeth BCS • Lefel 2

Mae hwn yn gwrs symud ymlaen o BCS Lefel 1 lle gallwch ennill Tystysgrif BCS Lefel 2. Mae angen o leiaf 16 credyd a fan bellaf 20 credyd ar gyfer y cymhwyster yma.
Uned Orfodol: Gwella Cynhyrchiant yn Defnyddio TG (4 credyd)
Dewis unedau o blith y dilynol:

- **Meddalwedd Prosesu Geiriau (4 credyd)**
- **Meddalwedd Taenlenni (4 credyd)**
- **Meddalwedd Cronfeydd Data (4 credyd)**
- **Meddalwedd Cyflwyniadau (4 credyd)**

## Dyfarniad Defnyddiwr Technoleg Gwybodaeth BCS • Lefel 2

Mae angen 12 credyd o'r unedau sydd ar gael ar gyfer y cymhwyster yma:

- **Meddalwedd Prosesu Geiriau (4 credyd)**
- **Meddalwedd Taenlenni (4 credyd)**
- **Meddalwedd Cronfa Ddata (4 credyd)**
- **Meddalwedd Cyflwyniadau (4 credyd)**


Neu gellir cyflwyno dysgwyr ar gyfer unedau unigol o lefel 1 hyd at lefel 2.

## ICDL Achrediad Uned Sengl Uwch - Lefel 3

Mae angen 6 credyd ar gyfer y cymhwyster yma. Mae'r cwrs dilyniant yma'n galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau uwch defnyddio TG i weithio'n gynhyrchiol mewn rôl oruchwylio/reoli. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno cynyddu dealltwriaeth a gallu mewn defnyddio rhaglenni TG.

Unedau sydd ar gael:

- **Meddalwedd Prosesu Geiriau (6 credyd)**
- **Meddalwedd Taenlenni (6 credyd)**
- **Meddalwedd Cronfa Ddata (6 credyd)**
- **Meddalwedd Cyflwyniad (6 credyd)**



## Cyrsiau ICDL - 36 wythnos

| Safle | Diwrnod | Amser |
|---|---|---|
| LAC Abertyleri | Dydd Mawrth | 1.00-3.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Mawrth | 10.00am-12.00pm |
| LAC Brynmawr | Dydd Mawrth | 6.30-8.30 pm |
| LAC Brynmawr | Dydd Mercher | 9.30-11.30am |
| LAC Glynebwy | Dydd Mercher | 6.30-8.30pm |
| Llyfrgell Tredegar | Dydd Mercher | 10.00am-12.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Iau | 1.00-3.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Iau | 6.30-8.30pm |
| LAC Abertyleri – Lefel 1 | Dydd Gwener | 10.00am-12.00pm |

Cost cyrsiau ICDL yw £2 yr awr, ffi aelodaeth flynyddol o £5 a ffioedd arholiad. Gall gostyngiadau ar ffioedd cwrs fod ar gael ar gyfer rhai ar incwm isel neu sy'n derbyn rhai buddion y mae prawf modd arnynt. Cysylltwch â'ch canolfan i gael mwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.



## Gwella eich Saesneg a Mathemateg - 38 wythnos

P'un ai a hoffech hybu eich rhagolygon gwaith, neu ddim ond gwella a diweddaru eich sgiliau, mae'r cyrsiau hyn ar eich cyfer chi - addas ar gyfer pob lefel a gallu. Nid oes unrhyw ffioedd cwrs, y cyfan sydd angen i ddysgwyr ei dalu yw ffi aelodaeth blynyddol o £5.
**Bydd cyrsiau'n dechrau yr wythnos yn cychwyn ar 11 Medi 2023.**



## Gwella eich Saesneg

| Safle | Diwrnod | Amser |
|---|---|---|
| LAC Brynmawr | Dydd Iau | 6.00-8.30pm |
| LAC Brynmawr | Dydd Gwener | 10.00-12.30pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Mawrth | 9.30-11.30am |
| LAC Glynebwy | Dydd Mawrth | 11.30-1.30pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Gwener | 9.30-12pm |
| Llyfrgell Tredegar | Dydd Llun | 9.30-12pm |
| LAC Abertyleri | Dydd Mawrth | 1.00-3.00pm |

## Gwella eich Mathemateg

| Safle | Diwrnod | Amser |
|---|---|---|
| LAC Abertyleri | Dydd Mercher | 3.00-5.30pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Mawrth | 9.30-11.30am |
| LAC Glynebwy | Dydd Gwener | 9.30-11.30am |
| Llyfrgell Tredegar | Dydd Llun | 12.00-2.00pm |
| LAC Brynmawr | Dydd Mercher | 9.30-12pm |

CWRS NEWYDD

## Mathemateg Cyn TGAU - 38 wythnos LAC Brynmawr • **Dyddiau Iau 4.30-7pm Dechrau 14 Medi 23**

**Cynlluniwyd y cwrs am ddim hwn ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno gwella eu sgiliau mathemateg gyda golwg ar gofrestru ar gwrs TGAU ym mis Medi 2024. Caiff dysgwyr eu hasesu ar ddechrau'r cwrs a bydd yn ategu sgiliau presennol mewn mathemateg, datblygu sgiliau newydd ac ennill cymhwyster lefel 1 Agored mewn cymhwyso rhif. Gall y rhai sy'n cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus symud ymlaen i gwrs mathemateg TGAU yn y flwyddyn academaidd ddilynol. Mae ffi aelodaeth blynyddol o £5 yn daladwy adeg cofrestru.**

**I gael mwy o wybodaeth anfonwch e-bost at: nicola.smith@aneurinleisure.org.uk**

## TGAU Saesneg a Mathemateg - 32 wythnos

**yn dechrau yn yr wythnos yn cychwyn 4 Medi 2023**



**Cynlluniwyd y cyrsiau hyn i'ch paratoi ar gyfer arholiadau TGAU CBAC Saesneg a Mathemateg ar gyfer cyfres arholiadau Haf 2024. Gellir cyflwyno rhai elfennau o'r cwrs o bell, felly bydd angen i bob dysgwr fod ag offer TG addas a mynediad i'r Rhyngrwyd.**

Caiff dysgwyr eu hasesu cyn cofrestru a'u cyfeirio at y cwrs mwyaf addas iddynt. Cysylltwch â Nicola Smith i gael mwy o wybodaeth ar asesiad cyn-cwrs
**ffôn: 01495 355287**
**E-bost: nicola.smith@aneurinleisure.org.uk**

Er mwyn cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, bydd angen i ddysgwyr fod yn bresennol yn o leiaf 80% o'r sesiynau a bod yn ymroddedig i dreulio o leiaf 2 awr arall yr wythnos ar astudiaeth annibynnol. Gellir gofyn i ddysgwyr nad ydynt yn mynychu am 3 wythnos olynol adael y cwrs. Mae'n rhaid talu ffi cynnig arholiad TGAU o £55 adeg cofrestru ynghyd â ffi aelodaeth blynyddol o £5. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Chanolfan Dysgu Gweithredol Glynebwy ar **01495 355300** neu Ganolfan Dysgu Gweithredol Abertyleri **01495 355585**.

| Cwrs | Lleoliad | Diwrnod | Amser |
|---|---|---|---|
| TGAU Saesneg | LAC Brynmawr | Dydd Iau | 5.30-8.30pm |
| TGAU Mathemateg Canolradd | LAC Brynmawr | Dydd Mercher | 5.30-8.30pm |
| TGAU Mathemateg Canolradd | LAC Glynebwy | Dydd Mercher | 5.30-8.30pm |
| TGAU Mathemateg Uwch | LAC Glynebwy | Dydd Iau | 5.30-8.30pm |

## Cyrsiau Sgiliau Byw Annibynnol (ILS)

**Mae'r rhain yn amrywiaeth o gyrsiau arbenigol, a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer dysgwyr gydag anhawster dysgu/anabledd neu rai sy'n cael problemau gyda eu hiechyd meddwl.**

Caiff yr holl gyrsiau eu haddysgu mewn dosbarthiadau bach, diogel a chyfeillgar gan diwtoriaid brwdfrydig a phrofiadol. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i weithio mor annibynnol ag sydd modd tra'n datblygu ystod eang o sgiliau yn y maes pwnc a ddewiswyd ganddynt. Gall y sawl sy'n cymryd rhan hefyd wella eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol presennol.

Mae'r pwyslais ar fwynhad tra'n gwella sgiliau presennol a datblygu sgiliau newydd. Mae'r cyrsiau hefyd yn gyfle i wneud ffrindiau newydd a datblygu sgiliau gwaith tîm a sgiliau cymdeithasol.

Bydd angen i'r sawl sy'n cymryd rhan dalu £8 tuag at adnoddau ynghyd ag aelodaeth flynyddol o £5. Bydd pob cwrs yn dechrau yn yr wythnos yn cychwyn 11 Medi 23 – os na nodir fel arall.

**Sgiliau Byw Annibynnol – Gemau a Gweithgareddau Hamdden**
Dyddiau Llun 12.30-3.30pm, LAC Glynebwy
Tiwtor: Michelle Seabourne

Dosbarth llawn hwyl o ymarfer a gemau i helpu cynnal pwysau iach, cryfhau cyhyrau a chynyddu egni a chodi hwyl. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys bowls dan do, tennis, badminton, golff, ymarfer ysgafn, dawns a llawer mwy – wedi eu teilwra i anghenion a galluoedd yr unigolyn.

**Sgiliau Byw Annibynnol – Canu, Cerddoriaeth a Drama**
Dyddiau Llun 9am-12pm LAC Glynebwy
Tiwtor: Michelle Seabourne

Mae'r dosbarth hwn yn addas ar gyfer dechreuwyr sy'n dymuno gwrando, cyfathrebu a mynegi eu hunain, meithrin hyder, ymchwilio emosiynau a chreadigrwydd mewn gofod diogel. Mae'n amgylchedd croesawgar ac yn ffordd gyfeillgar a hwyliog i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a chymryd rhan mewn sioeau/cyngherddau ar hyd y flwyddyn. Y nod yw helpu i wella cwmpas sylw a gwella cyfathrebu geiriol a heb fod yn eiriol.

**Sgiliau Byw Annibynnol: Sgiliau Hanfodol**
Dyddiau Llun 10am-12.30pm, LAC Abertyleri
Tiwtor: Elizabeth Francis

Cwrs addas ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno datblygu eu sgiliau llythrennedd/ cyfathrebu, rhifedd a digidol. Mae'r dosbarth yn fach a chyfeillgar ac mae dysgwyr yn datblygu sgiliau ar gyflymder a lefel sy'n addas ar gyfer eu lefel bersonol eu hunain. Caiff y rhai sy'n cymryd rhan eu hannog i ddatblygu sgiliau gweithio annibynnol, gan ddatblygu sgiliau cymdeithasol a sgiliau gwaith tîm ehangach.

**Sgiliau Byw Annibynnol - Sgiliau Swyddfa**
Dyddiau Llun 9.30am-12pm LAC Brynmawr
Tiwtor: Tracey Williams

Dosbarth bach a chyfeillgar addas ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno gwella a datblygu eu sgiliau cyfathrebu a swyddfa. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn dysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer swyddfa tebyg i lungopïwr, lamineiddiwr, ffôn a chyfrifiadur tra hefyd yn datblygu sgiliau mewn defnyddio pecynnau Microsoft Office tebyg i Word, Excel a Power Point.



**Sgiliau Byw Annibynnol – Gwella eich Saesneg**
Dyddiau Mawrth 9-11.30am, LAC Glynebwy
Tiwtor: Michelle Seabourne

Mae'r dosbarth hwn yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno gwella eu sgiliau darllen, ysgrifennu a chyfathrebu mewn amgylchedd cynnes a chyfeillgar. Caiff dysgwyr eu hannog i wella sgiliau ar eu lefel eu hunain a chânt eu cynorthwyo i wella eu gallu i weithio'n annibynnol yn ogystal â datblygu sgiliau cymdeithasol a gwaith tîm ehangach.

**Sgiliau Byw Annibynnol - Iechyd a Llesiant (Mynd Allan ac o Amgylch)**
Dyddiau Mawrth 2.15-4.45pm, LAC Glynebwy
Tiwtor: Michelle Seabourne

Mae'r dosbarth hwn yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno gwella eu ffitrwydd a llesiant drwy gynyddu eu lefelau gweithgaredd a bwyta diet iach, gytbwys. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn mynd allan ac o amgylch, yn ymweld ag ardaloedd lleol o ddiddordeb a harddwch naturiol. Bydd trafodaethau am wella arferion bwyta, ymwybyddiaeth ofalgar a diogelwch cymunedol – a llawer mwy. Caiff dysgwyr eu hannog i ddefnyddio gwasanaethau cymunedol tebyg i ganolfannau chwaraeon lleol, parciau a llyfrgelloedd.



## Sgiliau Byw Annibynnol - Gwella eich Saesneg yn defnyddio Sgiliau Digidol

Dyddiau Mawrth 11.30pm-2pm, LAC Glynebwy
Tiwtor:  Michelle Seabourne

Mae'r dosbarth hwn yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno gwella eu sgiliau llythrennedd yn defnyddio amrywiaeth o dechnolegau tebyg i iPads, ffonau clyfar, gliniaduron a dyfeisiau digidol eraill, Caiff y sawl sy'n cymryd rhan gyfle i ymweld â'r llyfrgell i ymchwilio a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, yn cynnwys rhai ar-lein. Bydd y dosbarth bach a chyfeillgar hwn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau gweithio tîm a sgiliau cymdeithasol ar eu cyflymder eu hunain.

## Sgiliau Byw Annibynnol - Cyfrifiaduron

Monday and  Thursday 12.30-3pm Brynmawr LAC
Tutor: Tracey Williams

Anelwyd y dosbarth hwn at ddechreuwyr llwyr sy'n dymuno dysgu sylfeini defnyddio cyfrifiadur. Mae'r pwyslais ar gael hwyl a chanfod eich ffordd o amgylch cyfrifiadur – heb boeni am wneud camgymeriadau! Bydd dysgwyr yn ennill sgiliau newydd, tebyg sut i wneud cardiau cyfarch a gwella eu sgiliau rhifedd a chyfathrebu mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar.

## Sgiliau Byw Annibynnol: Defnyddio iPad

Dyddiau Iau 9.30am-12pm, LAC Brynmawr
Tiwtor: Tracey Williams

Mae'r dosbarth hwn yn addas ar gyfer dysgwyr a hoffai ddatblygu eu sgiliau yn defnyddio iPad a chyfrifiadur drwy lawrlwytho apiau a chwilio'r rhyngrwyd. Mae'r dosbarth yn fach ac yn gyfeillgar ac yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio amrywiaeth o becynnau meddalwedd Microsoft, yn ogystal â datblygu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu.



## Sgiliau Byw Annibynnol: Crochenwaith

Dyddiau Mawrth 9.15-12.15 a 12.30-3.30pm,
dyddiau Mercher 9.15 – 12.15,  LAC Glynebwy
Tiwtor: Phillippa Lloyd

Mae'r dosbarthiadau hyn yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno dysgu sgil greadigol newydd. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn dysgu sylfeini crochenwaith tebyg i waith slab, pinsh potio, troelli a gwydro yn ogystal â datblygu eich sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd. Bydd y grŵp yn penderfynu beth hoffent ei wneud ar ddechrau pob tymor ac yn cael hwyl yn gwneud a gwydro eitemau i fynd â nhw gartref a hefyd eu gwerthu ar y stondin crefftau Nadolig.

**Bydd y dosbarth yn dechrau yn yr wythnos yn cychwyn 18 Medi 23**

## Sgiliau Byw Annibynnol Crochenwaith Cyfeillgar i Dementia

Dyddiau Mawrth 3.30- 6.30pm, LAC Glynebwy
Tiwtor: Phillippa Lloyd

Mae'r dosbarth hwn yn addas ar gyfer oedolion sydd â dementia a'u gofalwyr/cefnogwyr i'w galluogi i ddysgu sgiliau newydd mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar. Y nod yw cael hwyl tra'n datblygu sgiliau crochenwaith sylfaenol fel slabio, pinsh potio, troelli a gwydro, gan hefyd annog gwaith tîm a gwella sgiliau cyfathrebu. Caiff dysgwyr eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau eu hunain i ddylunio a chreu eitemau crochenwaith i fynd â nhw gartref.

**Bydd y dosbarth yn dechrau yn yr wythnos yn cychwyn 18 Medi 23**



## Sgiliau Byw Annibynnol: Crochenwaith Canolradd

Dyddiau Mercher, 12.30-3.30 LAC Glynebwy
Tiwtor: Phillippa Lloyd

Mae'r dosbarth hwn yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno adeiladu ar eu sgiliau crochenwaith tebyg i waith slab, pinsh potio, troelli a gwydro yn ogystal â defnyddio olwyn crochenwaith.

Bydd y grŵp yn penderfynu beth hoffent ei wneud ar ddechrau pob tymor ac yn cael hwyl yn gwneud a gwydro eitemau i fynd â nhw gartref a hefyd i'w gwerthu ar y stondin crefftau Nadolig.

**Bydd y dosbarth yn dechrau yn yr wythnos yn cychwyn 18 Medi 23**



## Sgiliau Byw Annibynnol - Celf a Chrefft

Dyddiau Llun 10-1pm a 1.30-3.30pm, LAC Glynebwy
Tiwtor: Emma Phillips

Mae'r dosbarthiadau hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau creadigol mewn celf a chrefft. Mae pynciau yn amrywio o baentio a darlunio i wneud modelau a gemwaith a chaiff dysgwyr eu hannog i weithio'n annibynnol a mwynhau mewn amgylchedd bach, diogel a chyfeillgar.

## Sgiliau Byw Annibynnol – Coginio Iach ar Gyllideb

Dyddiau Mercher 2-5pm, LAC Brynmawr
Tiwtor: Julie Deacon

Bydd y cwrs hwn yn galluogi dysgwyr i gynllunio a pharatoi amrywiaeth o brydau bwyd iach am bris rhesymol y byddant yn eu paratoi yn y dosbarth ac yn mynd â nhw adref i goginio yn y ffwrn. Bydd aelodau'r dosbarth hefyd yn dysgu sut i drefnu cyllideb a chynllunio ar gyfer coginio gartref a sut i goginio mewn ffrïwr aer. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu eu sgiliau rhifedd a chyfathrebu.

# Iaith Arwyddion Prydeinig Sgyrsio ar gyfer Dechreuwyr 36 wythnos

**Canolfan Dysgu Gweithredu Glynebwy Dyddiau Mercher 6-8pm**

Gall rhai elfennau o'r cwrs hwn gael eu dysgu o bell felly bydd angen i'r sawl sy'n cymryd rhan gael mynediad i'r rhyngrwyd ac offer addas. Mae costau'r cwrs yn £2 yr awr, ond gall gostyngiadau fod ar gael i'r rhai ar incwm isel neu sy'n derbyn rhai budd-daliadau y mae prawf modd arnynt, ynghyd â ffi aelodaeth blynyddol o £5.

**Cyrsiau'n dechrau yn yr wythnos yn cychwyn 12 Medi 2023**




# Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) 38 wythnos

Anelwyd y cyrsiau 38 wythnos rhad ac am ddim hyn at unrhyw un sydd ag iaith gyntaf heblaw Saesneg, ar ystod o lefelau o ddechreuwyr llwyr i wellhawyr. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos ymrwymiad i fynychu'r cyrsiau hyn yn rheolaidd ac yn brydlon – gall methiant i wneud hynny olygu y caiff eu lle ei roi i ddysgwr arall. Mae'r cyrsiau hyn yn gynyddol boblogaidd ac os yw cyrsiau yn llawn, caiff dysgwyr eu rhoi ar restr aros nes daw lle ar gael. Mae'n rhaid i bob dysgwr dalu ffi aelodaeth flynyddol o £5.

**Mae'r cyrsiau yn dechrau yn yr wythnos yn cychwyn 11 Medi.**




| Lleoliad | Diwrnod | Amser |
|---|---|---|
| LAC Glynebwy | Dydd Llun | 9.30am-12.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Llun | 12.30-3.00pm |
| LAC Abertyleri | Dydd Mercher | 9.30am-12.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Mercher | 1.00-3.00pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Mercher | 6.00-8.30pm |
| LAC Glynebwy | Dydd Gwener | 9.30-11.30am |
| LAC Glynebwy | Dydd Gwener | 12.00-2.00pm |
| ESOL i Wellhawyr | | |

AIMQUALIFICATIONS

# Dyfarniadau AIM Lefel 2 mewn Cwnsela - 36 wythnos

**Cynlluniwyd Dyfarniadau AIM Lefel 2 mewn Sgiliau Cwnsela i roi cyflwyniad i'r dysgwr i sgiliau cwnsela sylfaenol. Byddwch yn datblygu eich gwybodaeth o'r proffesiwn cwnsela, edrych ar rôl fframweithiau/codau ymddygiad proffesiynol a'r nodweddion personol creiddiol sy'n galluogi cwnselwyr cymwys.**

Mae'n rhaid i chi basio arholiad ysgrifenedig, fydd yn cynnwys cwestiynau yn rhoi sylw i wreiddiau damcaniaeth cwnsela a sut mae damcaniaeth yn sylfaen i sgiliau cwnsela. Mae'n edrych ar eich dealltwriaeth sylfaenol o dri phrif faes damcaniaeth cwnsela a sut y gallant gyfeirio at ymarfer cwnsela.

Byddwch hefyd yn dechrau datblygu eich sgiliau ymarferol mewn datblygu, cynnal a chadw a chwblhau sesiwn cwnsela sylfaenol drwy chwarae rôl, gan roi sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ymarfer o fewn ffiniau fframwaith moesegol.

Cewch gyfle i ennill sgiliau cwnsela mewn un o ddewis o bedwar cyd-destun ac maent yn weithredol ar gyfer amrywiaeth eang o rolau helpu a chefnogi:

- Cyflwyniad i Gwnsela yn y Gweithle
- Cyflwyniad i Weithio gyda Trawma
- Cyflwyniad i Weithio gyda Galar a Cholled
- Cyflwyniad i Weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc

### A yw'r cymhwyster hwn yn iawn i fi?

Mae'r cymhwyster hwn yn addas i chi os nad oes gennych fawr o brofiad, neu ddim profiad o gwbl, yn y pwnc. Cafodd ei gynllunio fel y cam cyntaf ar ysgol datblygu proffesiynol ar gyfer cwnselwyr presennol neu rai sy'n dymuno bod yn gwnselwyr. **Nid yw'r cymhwyster yn arwain yn uniongyrchol at rôl gyflogedig.**

| Lleoliad | Diwrnod | Amser |
|---|---|---|
| LAC Glynebwy | Dydd Iau | 6.00-8.30pm |

Caiff rhai elfennau o'r cyrsiau hyn eu cyflwyno o bell, felly bydd pob dysgwr angen offer technoleg gwybodaeth addas a mynediad i'r Rhyngrwyd.

Cysylltwch â Chanolfan Dysgu Gweithredol Glynebwy ar **01495 355300** i gael gwybodaeth am ffioedd y cwrs a ffioedd cofrestru Aim, sydd hefyd yn cynnwys cost yr arholiad.

# Ffotograffiaeth ar gyfer Pawb - Lefel 2

LAC Glynebwy – Dydd Mercher 6.30-8.30pm

Cynlluniwyd y cwrs 30 wythnos yma ar gyfer dechreuwyr a gwellhawyr a bydd yn cyflwyno dysgwyr i sylfeini ffotograffiaeth ddigidol. Cost yw cwrs yw £2 yr awr ac mae gostyngiadau ar gyfer rhai ar incwm isel, neu sy'n derbyn rhai budd-daliadau y mae prawf modd arnynt.

Ffoniwch **01495 355000** i gael mwy o wybodaeth.



# Grwpiau a Chlybiau



Mae Hamdden Aneurin yn cynnal amrywiaeth eang o grwpiau a chlybiau yng Nghanolfannau Dysgu Gweithredol (LAC) Glynebwy, Abertyleri a Brynmawr, yn ogystal ag yn Llyfrgell Tredegar. Mae'r grwpiau yn yn cynnwys: **Gwydr Lliw, Yoga, Celf a Chrefft, gwnïo, gweu, decoupage, Cymdeithas Hanes, ymarfer addfwyn** a llawer mwy...

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch LAC neu Lyfrgell lleol.

# Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwaith Cymorth mewn Ysgolion - 36 wythnos

City & Guilds
Believe you can

**Mae gan y cyrsiau hyn achrediad City & Guilds ac maent yn addas ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio fel cymhorthydd addysgu, neu rai sy'n gweithio mewn ysgolion sy'n dymuno ennill cymhwyster ffurfiol. Mae llawer iawn o alw am y cyrsiau hyn felly cynghorir darpar ddygwyr i wneud cais cyn gynted ag sydd modd. Cyflwynir y cwrs yn defnyddio dysgu cyfunol, felly bydd angen i bawb sy'n cymryd rhan gael mynediad i offer technoleg gwybodaeth addas a mynediad i'r rhyngrwyd.**



Er mwyn cael eu derbyn ar y cwrs lefel 2 ar gyfer mis Medi 2023, bydd angen i ddysgwyr gael cymhwyster Lefel 2 mewn Saesneg, Cyfathrebu neu Lythrennedd – a gafwyd o fewn y 3 blynedd ddiwethaf. Os ydych yn ansicr, cysylltwch â Nicola Smith (manylion islaw). Cost y cwrs yw £2 yr awr, ynghyd â ffi cofrestru City & Guilds, sydd angen ei dalu adeg cofrestru – gall fod gostyngiadau ar gael ar ffioedd cwrs.

**Os hoffech fwy o wybodaeth ar ofynion mynediad, costau ac yn y blaen neu os dymunwch wneud cais am le ar y cwrs, cysylltwch â Nicola Smith ar 01495 355287 neu e-bost nicola.smith@aneurinleisure.org.uk**

| Lleoliad | Diwrnod | Amser |
|---|---|---|
| LAC Brynmawr | Dydd Mercher | 5.30-8.30pm |

# Cyrsiau Addurno Teisennau - 36 wythnos

**Mae'r cyrsiau hyn yn addas ar gyfer rhai sy'n dymuno ennill sgiliau newydd ond nad ydynt eisiau ennill cymhwyster. Maent yn rhedeg am uchafswm o 36 wythnos a chânt eu rhedeg os oes o leiaf 8 o ddysgwyr ym mhob dosbarth. Mae ffioedd y cwrs yn £2 yr awr, yn daladwy ymlaen llaw ar £24 am bob bloc 6 wythnos, ond gall gostyngiadau fod ar gael ar gyfer rhai ar incwm isel neu sy'n derbyn rhai budd-daliadau y mae prawf modd arnynt. Mae angen i gyfranogwyr hefyd dalu ffi aelodaeth o £5 y flwyddyn, a ddefnyddir i brynu adnoddau ar gyfer defnyddwyr y ganolfan.**

Tiwtor y cwrs yw Emma Phillips, menyw busnes lleol talentog iawn sydd wedi ennill nifer fawr o wobrau. Bydd angen i ddysgwyr ddarparu rhai o'u deunyddiau eu hunain ond caiff y rhain eu darparu ar gyfer y sesiwn gyntaf a dywedir wrth gyfranogwyr beth y bydd angen iddynt ddod ag ef am weddill y cwrs.

**Cyrsiau'n dechrau yn yr wythnos yn cychwyn 11 Medi 2023**

| Lleoliad | Lefel | Diwrnod | Amser |
|---|---|---|---|
| LAC Glynebwy | Dechreuwyr | Dydd Mawrth | 4.00-6.00pm |
| LAC Glynebwy | Gwellhawyr | Dydd Mawrth | 6.30-8.30pm |
| LAC Glynebwy | Dechreuwyr a Gwellhawyr | Dydd Mercher | 10.00am-12.00pm |
| LAC Glynebwy | Gwellhawyr | Dydd Iau | 4.00-6.00pm |
| LAC Glynebwy | Dechreuwyr | Dydd Iau | 6.30-8.30pm |





CYRSIAU NEWYDD

## Crochenwaith i Bawb

**Dyddiau Mercher • LAC Glynebwy 3.30-6.30pm,**
**Cyfres o gyrsiau 6-wythnos i ddechreuwyr - £36**

Yn y cwrs hwn cewch eich annog i ddatblygu eich sgiliau creadigol ac ymarferol mewn amrywiaeth o dechnegau crochenwaith adeiladu â llaw tebyg i; rholio slab, potio pinsh, troellu a gwydro addurnol, drwy gyfarwyddyd ac arddangosiadau tiwtor. Cwrs cyntaf yn dechrau wythnos yn cychwyn 18 Medi.

Cynhelir cyfres o weithdai cwrs byr adeiladu â llaw (2 wythnos/4 awr) drwy gydol y flwyddyn yn LAC Glynebwy. Bydd pob cwrs 2-wythnos yn costio £16 a chânt eu hysbysebu ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Hamdden Aneurin.

CWRS NEWYDD

## Coginio Iach ar Gyllideb

**LAC Glynebwy • Dyddiau Mercher 10-1pm**
**Cyfres o gyrsiau 6 wythnos - £36**

Bydd y cwrs hwn yn galluogi dysgwyr i gynllunio a pharatoi amrywiaeht o brydau iach am bris rhesymol y byddant yn eu paratoi yn y dosbarth a mynd â nhw gartref i goginio yn y ffwrn. Bydd aelodau'r dosbarth hefyd yn dysgu sut i drefnu arian a chynllunio ar gyfer coginio gartref a beth i'w goginio mewn ffrïwr aer. Cyflenwir cynhwysion ar gyfer y sesiwn gyntaf ond bydd angen i ddysgwyr ddod â'u cynhwysion eu hunain ar gyfer yr wythnosau dilynol. Bydd y cwrs cyntaf yn cychwyn ar 11 Medi.

CWRS NEWYDD

## Celf yn y Prynhawn

**LAC Glynebwy • Dyddiau Gwener 1-3pm**
**Cyfres o gyrsiau 6 wythnos - £36**

Cynhelir cyfres o gyrsiau crefft 6 wythnos o ddydd Gwener 5 Medi 23. Bydd mwy o wybodaeth ar gael ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Hamdden Aneurin.

**I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â LAC Glynebwy ar 01495 355300**



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

# Dysgwch Gymraeg gyda ni!
## Learn Welsh with us!

Whether you're a complete beginner or continuing to learn Welsh, courses are available throughout Blaenau Gwent at various locations and convenient times.

We're here to help all Welsh learners in the Blaenau Gwent area, whatever your level.

Contact us for more information, to secure your place on one of our courses or to receive a copy of our latest Prospectus.

Os dych chi'n ddechreuwr pur neu'n parhau gyda'ch dysgu, mae cyrsiau ar gael ar draws Blaenau Gwent mewn lleoliadau gwahanol ac ar amseroedd cyfleus.

Dyn ni yma i helpu pob dysgwr Cymraeg yn ardal Blaenau Gwent, beth bynnag yw'ch lefel.

Cysylltwch â ni am ragor o fanylion, i sicrhau eich lle neu dderbyn copi o'n Prosbectws diweddaraf.

## How to get in touch.
## Sut i gysylltu â ni.

**Website**
**www.dysgucymraeg.cymru/gwent**
**www.learnwelsh.cymru/gwent**

**Call us**
01495 333710

**E-mail us**
welsh@coleggwent.ac.uk

# Llogi Ystafelloedd yn y Canolfannau Dysgu Gweithredol

Mae ystafelloedd o wahanol feintiau ar gael i'w llogi yng Nghanolfannau Dysgu Gweithredol Abertyleri, Brynmawr a Glynebwy. Mae gan yr ystafelloedd hyn adnoddau da, maent yn olau a braf ac yn addas ar gyfer cyrsiau, cynadleddau ac ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol.

- Wi-Fi am ddim
- Te a Choffi ar gael
- Offer Technoleg Gwybodaeth
- Prisiau rhesymol



**Cysylltwch â Canolfan Dysgu Gweithredol Abertyleri 01495 355895**



**Cysylltwch â Canolfan Dysgu Gweithredol Brynmawr 01495 355595**



**Cysylltwch â Canolfan Dysgu Gweithredol Glynebwy 01495 355300**

# Gwybodaeth Gyffredinol

## Cofrestru

Cysylltwch â'ch Canolfan Dysgu Gweithredol leol i gael gwybodaeth am gofrestru sydd i fod i ddechrau yn yr wythnos yn cychwyn 7 Awst 2023. Bydd gwybodaeth ar gael hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefan Hamdden Aneurin.

## Cyrsiau

Mae'r holl wybodaeth am gyrsiau yn gywir adeg mynd i'r wasg ond gallant newid. Mae'r llwybrau dilyniant a hysbysebir yn amodol at barhau cyllid gan Lywodraeth Cyllid. Gellir cynllunio cyrsiau byr yn ystod y flwyddyn academaidd, edrychwch ar ein gwefan **www.aneurinleisure.org.uk** i gael yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae Hamdden Aneurin yn cadw'r hawl i newid tiwtor os oes angen.

**Cyrsiau'n dechrau WC 11 Medi 2023, os na nodir fel arall**

Caiff cyrsiau eu rhedeg yn amodol ar isafswm nifer dysgwyr yn cofrestru.
Os na chaiff y rhif hwn ei gyrraedd:

- Gellir canslo'r cwrs cyn ei ddechrau a rhoddir ad-daliad llawn i ddysgwyr sydd wedi cofrestru.

- Gall y cwrs redeg am y 3 wythnos gyntaf, i weld os gellir cyrraedd y rhif targed. Os na, caiff dysgwyr gynnig ad-daliad llawn neu gyfle i drosglwyddo i gwrs arall.

## Siarter Dysgwyr

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned Hamdden Aneurin yn ymroddedig i sicrhau fod pob dysgwr yn derbyn y gwasanaeth ansawdd uchaf. Mae hyn yn cynnwys ansawdd addysgu, cysur a diogelwch myfyrwyr a'r offer a ddarparwyd. Os ydych yn anhapus gydag unrhyw agwedd o'r gwasanaeth a gewch, cysylltwch os gwelwch yn dda â Karen Bennett, Rheolwr Dysgu Oedolion yn y Gymuned **01495 355301, karen.bennett@aneurinleisure.org.uk**

## Cefnogaeth i Ddysgwyr

Os hoffech wella eich Saesneg neu'ch Mathemateg, neu os hoffech ddatblygu eich sgiliau astudio, cysylltwch os gwelwch yn dda â Nicola Smith **01495 355287** neu anfon e-bost at **nicola.smith@aneurinleisure.org.uk** i gael manylion help sydd ar gael am ddim.

## Cau Dosbarth mewn Argyfwng

Gwneir pob ymdrech i hysbysu myfyrwyr os caiff dosbarth ei gau oherwydd tywydd gwael neu salwch tiwtor a gwneir pob ymdrech i hysbysu myfyrwyr. Neges destun yw'r dull sydd orau gennym ar gyfer cysylltu â dysgwyr, felly gofynnir i chi roi rhif eich ffôn symudol ar eich ffurflen gofrestru. Hefyd gwnewch yn siŵr os gwelwch yn dda eich bod yn hysbysu'r ganolfan cyn gynted ag sydd modd am unrhyw newidiadau i'ch manylion cyswllt.

## GDPR

Bydd Hamdden Aneurin yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data. I gael mwy o wybodaeth ac i weld ein hysbysiadau preifatrwydd yn amlinellu sut ydym yn trin eich data personol edrychwch ar yr adran Polisi Preifatrwydd ar wefan Hamdden Aneurin yn **www.aneurinleisure.org.uk**

## Ffi Aelodaeth

Mae pob dysgwr yn talu Ffi Aelodaeth flynyddol o £5 i bob canolfan a fynychant. Defnyddir yr arian hwn i brynu adnoddau ar gyfer defnyddwyr y canolfannau.

## Hamdden Aneurin:

- Rydym yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw ddysgwr ac i ofyn i unrhyw ddysgwr sy'n ymddwyn mewn modd amhriodol i adael.

- Nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am golled neu ddifrod i eiddo dysgwyr. Mae'n rhaid i ddysgwyr gymryd gofal rhesymol am unrhyw eitemau personol y deuant â nhw i'r dosbarth, trefnu yswiriant addas ar gyfer unrhyw eitemau personol ac fe'u cynghorir i beidio gadael eiddo heb neb i ofalu amdano.

Llyfrgelloedd
Blaenau Gwent
Libraries

# Rhywbeth i Bawb!

**Mae Llyfrgelloedd Blaenau Gwent yn ymroddedig i wasanaethau sy'n cefnogi eich dysgu. P'un ai ydych yn dilyn hobi newydd, eisiau gwybodaeth am gyfrifiaduron neu ennill cymhwyster ffurfiol. Darparwn amrywiaeth o lyfrau a gweithgareddau i'ch helpu i gyflawni eich uchelgais. Mae ein llyfrgelloedd yn safleoedd cymunedol cyfleus sydd ar agor i bawb.**

- Rhad ac am ddim i ymuno
- Gofod i astudio mewn amgylchedd cyfeillgar, hamddenol
- Defnydd cyfrifiaduron am ddim
- Gwasanaeth eLyfr am ddim, sy'n cynnwys dewis o 25,000 teitl
- Wi-Fi am ddim
- Argraffu Wi-Fi
- Gwasanaethau argraffu, sganio a llungopïo
- Hybiau Cymunedol y Cyngor ym mhob llyfrgell
- Help am ddim gyda gwaith cartref eich plentyn
- Help i chwilio am swydd a CVs
- Cefnogaeth un i un sylfaenol ar gyfrifiaduron
- Help gyda llythrennedd oedolion
- Adnoddau hanes teulu am ddim
- Adnoddau ar-lein am ddim
- E-gylchgronau am ddim
- Gwasanaeth cais am ddim (gellir archebu llyfrau o holl lyfrgelloedd Cymru)
- Cyfeirio a gweithio partneriaeth
- Cefnogaeth iechyd a llesiant
- Ystod eang o wasanaethau plant yn cynnwys sesiynau Amser Stori a Dan 5
- Grwpiau Darllen
- Grwpiau Gweu a Chlonc
- Cefnogaeth gyda hanes lleol
- Ymholiadau ar bob pwnc
- Gwasanaeth dosbarthu i gartrefi

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'ch llyfrgell leol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tredegar | 01495 357869 | Blaenau | 01495 290312 |
| Brynmawr | 01495 357743 | Abertyleri | 01495 355646 |
| Glynebwy | 01495 355055 | Cwm | 01495 355605 |

Neu e-bost: **blaenaugwentlibraries@aneurinleisure.org.uk**



# Bridges+

## Dim mewn Gwaith? Rydym yma i helpu...







**Mae prosiect Bridges Plus yn gweithio ar draws Blaenau Gwent gyfan i gynnig cefnogaeth a mentora i bobl 25 oed a throsodd heb fod mewn gwaith.**

Bydd y tîm yn eich cefnogi gyda:

- ✔ Cynyddu eich hyder
- ✔ Hyfforddiant ar-lein ac ystafell ddosbarth
- ✔ Cyfleoedd gwirfoddoli
- ✔ Cymwysterau
- ✔ Chwilio am swyddi a cheisiadau
- ✔ Ysgrifennu CV

**Cysylltwch â ni heddiw i ganfod mwy:**

**E-bost: bridgesplus@aneurinleisure.org.uk**
**Ffôn: 01495 356019 / 07974 856336**

**Neu i gael mwy o wybodaeth ewch i www.aneurinleisure.org.uk/bridgesplus**

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
FFYNIANT BRO
Multiply
Aneurin leisure Improving community life
Addysg i Oedolion yn y Gymuned Adult Community Learning

# Angen help gyda rhifau?

# DATGLOI EICH POTENSIAL

## SGILIAU AM FYWYD

## Multiply



**Mae Multiply yn cynnig mynediad rhwydd i gyrsiau a chynlluniau am ddim ar rifedd ar draws Blaenau Gwent a all eich helpu i loywi eich sgiliau mathemateg a dod yn fwy hyderus gyda rhifau.**

P'un ai ydych angen help i reoli eich biliau, cadw trefn ar arian neu ddeall gwaith cartref eich plant, gall Multiply gynnig cyrsiau rhifedd am ddim i gynyddu eich hyder mewn defnyddio rhifau yn y gwaith neu eich bywyd bob dydd.

Os ydych yn 19 oed neu drosodd ac nad oes gennych eisoes TGAU neu gradd C (neu debyg) mewn mathemateg, mae Multiply ar gael i chi.

**Cysylltwch â ni heddiw i ganfod mwy:**

**E-bost: multiply@aneurinleisure.org.uk**
**Ffôn: 01495 355 258 – 07974 856476**

**Neu i gael mwy o wybodaeth ewch i www.aneurinleisure.org.uk/multiply**

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | FFYNIANT BRO | Blaenau Gwent | Aneurin leisure Improving community life | Addysg i Oedolion yn y Gymuned Adult Community Learning

PRIODAS BEDWELLTY

# Eich Diwrnod, Eich Ffordd



Yn Nhŷ Bedwellte, gwnawn i'ch breuddwydion ddod yn wir. Ein cenhadaeth yw sicrhau eich bod yn cael y diwrnod perffaith gydag atgofion fydd yn para am byth.

I wneud apwyntiad i drafod cynlluniau eich priodas ffoniwch ni ar 01495 353397, a byddwn yn rhoi gostyngiad o 10% pan gyflwynir y llyfryn hwn ar gyfer pob priodas a drefnir.

**bedwelltyhouseandpark.com**

BEDWELLTY HOUSE & PARK



Rydym yn sefydliad nid-er-elw sy'n golygu bob tro y defnyddiwch un o'n safleoedd neu wasanaethau caiff yr arian a wariwch ei ailfuddsoddi gan ein galluogi i barhau i wella'r cyfleusterau hyn ar gyfer pobl Blaenau Gwent.

**aneurinleisure.org.uk**

Aneurin leisure
Improving community life